Trosglwyddo

Mae newid yn rhan arferol o fywyd a gall ddarparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu gwytnwch. P'un a yw plentyn yn dechrau yn yr ysgol gynradd, yn newid ysgol, yn newid dosbarth, yn symud drwy'r Camau Cynnydd neu'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mae angen cefnogi'r cyfnod trosglwyddo hwn yn ofalus.

Yn ystod unrhyw gyfnod trosglwyddo, mae Ysgol Llangynnwr yn cynnig cyfleoedd i blant siarad am eu pryderon ac yn eu cefnogi i ymdopi ag unrhyw addasiadau newydd.

Trosglwyddo rhwng Dosbarthiadau

Mae pob plentyn o'r Dosbarth Meithrin hyd at Flwyddyn 5 yn cael y cyfle i ymweld â'u hathro neu athrawes nesaf a'u hystafell ddosbarth newydd. Maent yn treulio sesiwn lawn yn eu dosbarth newydd gan ddod i adnabod eu hathro neu athrawes nesaf. Byddant yn trafod amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â'u trosglwyddiad i'r grŵp blwyddyn nesaf, gan gynnwys meithrin perthnasoedd drwy gemau a gweithgareddau hwyliog, trafod prosiectau dysgu, trefniadaeth o ddydd i ddydd, a rhoi cyfleoedd i'r plant ofyn cwestiynau.

Trosglwyddo yng Nghanol y Flwyddyn

Bydd plant sy'n trosglwyddo i Ysgol Llangynnwr yn derbyn gwybodaeth berthnasol gan eu hysgol flaenorol. Bydd plant sy'n trosglwyddo allan o Ysgol Llangynnwr yn cael gwybodaeth megis Proffiliau Un Dudalen, adroddiadau ysgol blaenorol ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill i gefnogi'r trosglwyddiad.

Byddem hefyd yn annog rhieni sy'n ystyried gwneud cais am le yn yr ysgol i ymweld â'r ysgol cyn cwblhau'r broses dderbyn.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i'w helpu i baratoi ar gyfer eu trosglwyddiad i'r ysgol uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys diwrnodau trosglwyddo yn yr ysgol uwchradd ac ymweliadau gan aelodau o staff yr ysgolion hynny.

Yn ogystal, mae Athro/Athrawes Blwyddyn 6 a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cyfarfod â staff pob ysgol uwchradd er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol a thrafod anghenion penodol pob disgybl.

Transition

Change is a normal part of life and can provide opportunities for children to develop their resilience. Whether a child is starting primary school, changing schools, changing class, moving from through the Progression Steps or Primary to Comprehensive school, this transition period needs to be carefully supported.

During any transition period, Ysgol Llangynnwr offers children the opportunity to talk about their concerns and are supported to cope with any readjustments.

Transition between classes

All children from Nursery to Year 5 are given the opportunity to visit their next teacher and classroom. They spend a full session in their new classroom getting to know their next teacher. They will discuss a range of topics regarding their transition to the next year group, these will include building relationships though fun games and activities, discussing learning projects, day-to-day organisation and opportunities for the children to ask questions.

Mid year transition

Children who transfer into Ysgol Llangynnwr will receive pupil information from the previous school. Children transferring out of Ysgol Llangynnwr will have information such as One-Page Profiles, previous school reports and any other relevant documentation.

We would also encourage prospective parents to visit our school prior to completing the admissions process.

Transition to Secondary School

Year 6 children participate in a range of activities to help them prepare for their transition to Comprehensive school. These include transition days spent at the Comprehensive school class visits from staff. Additionally, the Year 6 Teacher and ALNCo meet with staff from each Comprehensive School to pass on a range of information and discuss the specific needs of each pupil.